



llwybr plant NANT EIRIAS UCHAF

- Taith gerdded gylch fer i blant, gydag anifeiliaid i ddod o hyd iddyn nhw!



Nant Eirias Uchaf

Croeso i warchodfa natur leol Nant Eirias Uchaf.

Er nad yw'n goetir mawr, mae Nant Eirias Uchaf yn gartref i nifer o blanhigion ac anifeiliaid gwahanol. Mae'r anifeiliaid sy'n byw yma yn swil iawn, ond os gwnewch chi gerdded yn ddistaw o gwmpas y coetir, efallai y byddwch chi'n ddigon lwcus i weld rhai ohonyn nhw!



Gwybodaeth am y daith

➤ Mae'r llwybr yn hawdd iawn i'w ddilyn gan mai un llwybr yn unig sydd gyda wyneb arno yn mynd o amgylch y coetir.

YTir: Mae'r llwybr yn eithaf fflat ond mae'n cynnwys sawl step. Nid oes giatiau, giatiau mochyn na chamfeydd.

Pellter: Llai na hanner milltir.

Llwybr: Gyda wyneb o gerrig mân.

Lluniaeth: Ar gael mewn siopau lleol, caffis a thafarndai ym Mae Colwyn a Hen Golwyn.

I gael mwy o wybodaeth, ffoniwch 01492 575547.

SUT YDW I'N MYND YNO?

Ar drên: O orsaf Bae Colwyn gallwch ddal bws neu gerdded yr hanner milltir i Nant Eirias Uchaf (gweler y map am fanylion). I gael gwybodaeth gyffredinol am drenau, ffoniwch 08457 484950 neu ewch i: www.nationalrail.co.uk

Ar fws: Mae bysiau yn teithio ar hyd Ffordd Abergele, rhwng Hen Golwyn a Bae Colwyn.

Ffoniwch Traveline Cymru ar 0870 608 2 608

neu ewch i: www.traveline-cymru.org.uk

Llinell ffôn cludiant cyhoeddus: 01492 575412.

Mewn car: Gadewch yr A55 cyffordd 22. Gweler y map am fanylion ar sut i gyrraedd y safle. Gallwch barcio ar Ffordd Abergele. Gweler y map am fanylion ar sut i gyrraedd y safle o Ffordd Abergele.

MWY O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am fwy o wybodaeth a thafenni am amrywiaeth o deithiau cerdded ewch i: www.conwy.gov.uk/cefnngwlad

E-bost: cg.cs@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 575290 (Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy)

Dilynwch Y Côt Cefn Gwlad os gwelwch yn dda

- Parchwch
- Diogelwch
- Mwynhewch



Sut i gwblhau'r Llwybr Plant yn Nant Eirias Uchaf

Dilynwch y Llwybr o'r man dechrau a nodir ar y map. Defnyddiwch y cliwiau sydd ar y dudalen isod i'ch helpu i ddod o hyd i'r anifeiliaid. Bydd rhaid i chi edrych o'ch cwmpas yn ofalus. Ysgrifennwch eich atebion isod.

Eich Atebion

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.
- 6.
- 7.
- 8.
- 9.
- 10.

Llwybr Plant Nant Eirias Uchaf - Cliwiau!

- 1. Rwy'n byw mewn ffau, yn y wlad neu mewn tref. Rwy'n gochfrown gyda chynffon flewog, drwchus.
- 2. Rwy'n byw mewn daear. Rwy'n gryf iawn gyda chrafangau mawr, miniog sy'n dda i gloddio. Rwy'n bwyta aeron, bylbiau, pryfed genwair a llygod a mamaliaid bychain eraill weithiau. Mae gen i flew du a gwyn.
- 3. Mae fy ngolwg i'n wael iawn felly rwy'n defnyddio sŵn i fy helpu i ddod o hyd i le rwy'n mynd. Yn ystod y dydd, pan rwy'n mynd i gysgu, rwy'n hongian ben i lawr. Rwy'n byw ar bryfed rwy'n eu dal wrth hedfan.
- 4. Rwy'n anadlu drwy dwll ar fy nghefn. Lle bynnag rwy'n mynd, rwy'n gadael ôl llysnafeddog. Mae'n rhaid i mi gadw'n llaith, felly rwyf wrth fy modd â lleoedd llaith, tywydd gwlyb a'r tywyllwch.
- 5. Pan mae'n dechrau nosi, rwy'n dod allan i hela llygod a llygod y gwair. Rwy'n gallu troi fy mhen yr holl ffordd o gwmpas. Rwy'n hedfan yn hollol dawel bron.
- 6. Rwy'n bwyta pryfed, llyffantod, malwod, wyau adar, madarch, aeron a gwreiddiau glaswellt. Rwy'n gaeafu dros y misoedd oeraf. Os bydd rhywbeth yn fy nychryn, byddaf yn gwneud fy hun yn belen. Mae gen i gefn pigog.
- 7. Rwy'n byw mewn lleoedd llaith, tywyll. Rwy'n anadlu drwy dagellau ar fy nghoesau. Rwy'n perthyn o bell i'r cranc a'r cimwch. Mae gen i 14 coes ac rwy'n llwyd.
- 8. Rwy'n byw mewn tyllau mewn boncyffion coed. Rwyf yn gwneud y tyllau fy hun, gan wneud sŵn cnocio uchel. Yn y gwanwyn a'r haf rwy'n byw ar bryfed ond yn yr hydref a'r gaeaf rwy'n byw ar ffrwythau, hadau a chnau. Pryf wyf i. Mae gen i adenydd mawr, lliwgar. Ar ddiwrnodau cynnes, golau yn unig y byddaf i'n hedfan. Roeddwn i'n lindysyn unwaith.
- 10. Rwy'n ysglyfaethwr, sy'n golygu fy mod yn hela anifeiliaid eraill. Rwy'n parhysu fy ysglyfaeth gyda brathiad gwenwynig cyn ei fwyta. Mae gen i wyth coes.

